# GWASANAETHAU'R CAMPWS - GWASANAETHAU PRESWYLFEYDD
## Sesiwn 2021/2022
## GWYBODAETH AR GYFER CYRRAEDD – Llys Tal-y-bont

### Er mwyn caniatáu ymbellhau cymdeithasol a lleihau ciwiau/amseroedd aros hir, bydd system archebu ar gyfer symud i lety'r Brifysgol:

- Bydd y system archebu ar agor rhwng 1 a 19 Medi – **rhaid i chi drefnu slot cyrraedd erbyn hanner nos ar 19 Medi**
- Bydd slotiau cyrraedd bob dydd gyda lleoedd cyfyngedig ar gael fesul slot (yn unol ag unrhyw gyfyngiadau COVID-19 sydd ar waith bryd hynny)
- Bydd myfyrwyr yn cyrraedd dros gyfnod o 5 diwrnod, rhwng dydd Mercher 22 Medi a dydd Sul 26 Medi
- Os nad ydych yn gallu cyrraedd erbyn dydd Sul 26 Medi, byddwch yn gallu trefnu i gyrraedd yn hwyrach rhwng dydd Llun 27 Medi a dydd Gwener 15 Tachwedd (gwiriwch eich dyddiad ymrestru/cofrestru hwyraf)
- Dim ond ar ôl i chi dderbyn eich cynnig ystafell a chwblhau'r Cyfnod Ymsefydlu Preswylfeydd ar-lein y byddwch yn gallu trefnu slot cyrraedd
- Ni fydd eich amser cyrraedd yn effeithio ar eich cyfnod preswyl neu eich ffioedd preswyl. Bydd y rhain yr un fath â'r hyn a nodwyd ar gadarnhad eich ystafell

### Myfyrwyr tramor sy'n defnyddio gwasanaeth casglu hyfforddwyr Prifysgol Caerdydd rhwng 22 a 27 Medi 2021

- Nid oes angen i chi drefnu slot cyrraedd; byddwn yn cael eich manylion cyrraedd o System Trefnu Casgliadau Hyfforddwyr y Brifysgol.

**Os yw eich Cytundeb Llety yn dechrau ddydd Mercher 22 Medi:**

**Pryd dylwn i gasglu fy allwedd?**

**Rhaid i chi gyrraedd yn ystod yr amser cyrraedd a neilltuwyd i chi ymlaen llaw. Bydd ambell slot ar gael ar yr amseroedd canlynol:**

**10am i 5pm – dydd Mercher, 22 Medi i ddydd Sadwrn, 25 Medi**
**10am i 1pm – dydd Sul 26 Medi**

**O ble dylwn i gasglu fy allwedd?**

Derbynfa'r Preswylfeydd yn Llys Tal-y-bont; gweler y map drosodd a defnyddiwch CF14 3UA yn eich teclyn llywio lloeren.

**Os nad ydych wedi trefnu i gyrraedd yn hwyr erbyn 1pm ar 24 Medi neu gasglu eich allwedd ystafell erbyn 1pm ddydd Sul 26 Medi, bydd eich llety neilltuedig yn cael ei dynnu'n ôl a bydd yr ystafell yn cael ei chynnig i fyfyriwr arall.**

**Os nad yw eich Cytundeb Llety yn dechrau ddydd Mercher 22 Medi:**

**Pryd dylwn i gasglu fy allwedd?**

**10am i 5pm - ar ddiwrnod cyntaf eich Cyfnod Preswyl (mae'r dyddiad hwn ar eich Cytundeb Llety).**

**O ble dylwn i gasglu fy allwedd?**

**Derbynfa'r Preswylfeydd yn Llys Tal-y-bont; gweler y map drosodd a defnyddiwch CF14 3UA yn eich teclyn llywio lloeren.**

**Rhaid i chi gasglu eich allwedd erbyn 5pm ar ddiwrnod cyntaf eich Cyfnod Preswyl, fel arall bydd eich llety neilltuedig yn cael ei dynnu'n ôl a bydd yr ystafell yn cael ei chynnig i fyfyriwr arall.**

## Cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus:

**Os byddwch yn cyrraedd gorsaf reilffordd Caerdydd Canolog, neu ar fws:**

**Tacsi** – Gallwch gael gafael ar dacsi yn rhwydd o'r safle tacsis y tu allan i orsaf reilffordd Caerdydd Canolog. Os byddwch yn cyrraedd ar fws ac yn methu dod o hyd i dacsi, 02920 333 333 yw rhif un o'r cwmnïau tacsis lleol. Bydd y rhain yn costio oddeutu £10, gan ddibynnu ar y pellter a faint o fagiau sydd gennych.

**Bws** – Mae nifer o lwybrau bysiau yn rhedeg o ganol dinas Caerdydd, sy'n aros gerllaw neuaddau preswyl. I gael rhagor o wybodaeth ac amserlenni, ewch i'r dudalen we ganlynol: http://www.cardiffbus.com/

## A oes lleoedd parcio ar gael?

- Ar ôl cyrraedd Llys Tal-y-bont, byddwch yn cael eich cyfeirio at le parcio dros dro tra y byddwch yn casglu eich allwedd o'r Dderbynfa; mae hyn wedi ei gyfyngu i un car fesul myfyriwr
- Wedyn, byddwch yn cael eich cyfeirio at gyfleusterau parcio dros dro eraill ar y safle i ddadlwytho
- Yn anffodus, gallwn ganiatáu 45 munud yn unig i ddadlwytho eich cerbyd oherwydd cyfyngiadau parcio a faint o bobl sy'n cyrraedd
- Ar ôl dadlwytho, gallwch barcio yn y maes parcio talu ac arddangos agosaf sydd ar Heol y Gogledd - oddeutu 15 munud ar droed (gweler y map drosodd)



## MAES PARCIO (ar ôl dadlwytho)




## MAP O'R SAFLE